Gwahoddiad i Dendro: Gwasanaethau Archwilio Hydref 2019

Cyflwyniad

Theatr Genedlaethol Cymru yw'r cwmni theatr cenedlaethol iaith Gymraeg. Rydym yn creu profiadau theatr beiddgar, uchelgeisiol, cynhwysol a chofiadwy wrth galon ein cymunedau mewn canolfannau theatr traddodiadol a lleoliadau annisgwyl ledled Cymru a thu hwnt.

Mae'r cwmni – a leolir yng Nghaerfyrddin – hefyd yn cynnig gweithdai a rhaglen gynhwysfawr o waith gyda chymunedau, ac yn darparu adnoddau ar gyfer y sector theatr yng Nghymru.

Mae Theatr Genedlaethol Cymru - a sefydlwyd yn 2003 - yn elusen gofrestredig ac yn gwmni a gyfyngir gan warant. Fel elusen, mae'r Theatr yn gorfod dod o hyd i incwm o nifer o ffynonellau gwahanol, Ar hyn o bryd mae rhan sylweddol o incwm blynyddol y Theatr yn dod o Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r Theatr yn Aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru ac yn derbyn grant refeniw blynyddol.

Rhan Un – Y Fanyleb

Mae Theatr Genedlaethol Cymru (ThGC) yn dymuno penodi cwmni i ddarparu gwasanaethau archwilio allanol ar gyfer tair blwyddyn ariannol, o 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2023, gyda'r posibiliad o ymestyn y cytundeb am 2 flynedd ymhellach. Mae ThGC yn gwahodd tendrau gan gwmnïau cyfrifyddu cymwys i ddarparu gwasanaeth Archwilio Allanol.

Gofynion

Mae angen Archwilwyr Allanol ar ThGC i

- archwilio cyfrifon;
- paratoi cyfrifon blynyddol ThGC ar ffurf cyfrifon elusen;
- mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a Materion Gweithredol i gyflwyno'r cyfrifon;
- darparu adroddiadau priodol i'r Pwyllgor Cyllid a Materion Gweithredol, Bwrdd Ymddiriedolwyr ThGC a'r awdurdodau statudol priodol ynghylch cywirdeb ac addasrwydd cyfrifon a systemau rheoli ariannol ThGC;
- darparu cefnogaeth i swyddogion ThGC wrth gyflawni gofynion adrodd ariannol statudol i Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau;
- darparu cefnogaeth i swyddogion ThGC i gyflwyno hawliad Rhyddhad Treth Theatr i Gyllid a Thollau EM;
- ymateb i unrhyw ymholiadau perthnasol, yn achlysurol.

Gwybodaeth i'w Gynnwys

Dylai cwmnïau archwilio sydd â diddordeb gyflwyno'r canlynol:

Y profiad a'r arbenigedd perthnasol sydd gan y cwmni, yn enwedig pa bartner/iaid; rheolwr/wyr archwilio; a staff sydd â phrofiad o gynnal archwiliadau yn y trydydd sector neu sector y celfyddydau. Dylech fanylu ar ba staff y byddwch yn disgwyl i fod ynghlwm a'r gwaith.

Hefyd i gynnwys:

- Yr adnoddau sydd ar gael i gynnal yr archwiliad;
- Y ffi archwilio am y flwyddyn 2020/2021 (gan gynnwys gwaith ynglyn ag archwilio a pharatoi cyfrifon 2019/2020), a manylion ar ba sail bydd y ffi yn cynyddu o un flwyddyn i'r nesaf;
- Dull a methodoleg archwilio;
- Gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg gan mai'r Gymraeg yw cyfrwng holl weinyddiaeth fewnol ThGC
- Gwasanaethau eraill a gynigir gan y cwmni;
- Dylai cwmnïau ddynodi partner a rheolwr archwilio arfaethedig ar gyfer yr aseiniad a chynnwys manylion am eu profiad a'u cymwysterau

Gwerth am Arian

Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn gwneud y defnydd llawnaf o'r tair elfen graidd, **amser, arbenigedd ac ansawdd y gwaith**, felly rhaid i gyflenwyr wneud yn siŵr bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau am y gwasanaethau a roddir.

Iaith

Cewch ymateb i'r tendr yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Dylech brofi yn eich tendr fod gan y cwmni yr hyfedredd digonol i fedru cynnig y gwasanaethau a ddisgrifir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Anfonebau/Ffioedd

Dylid nodi yn y tendr y ffi ar gyfer darparu'r gwasanaeth y nodir uchod. Nodwch hefyd unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth a ragwelir wrth gyflawni'r gwasanaeth.

Yn ogystal â nodi'r ffi am y gwaith uchod, dylid nodi costau ar gyfer gwasanaethau ychwanegol.

Bydd y cyflenwr yn ymgynghori â'r cleient cyn mynd i unrhyw dreuliau neu daliadau sylweddol.

Gwybodaeth Ychwanegol

- Mae ThGC yn defnyddio pecyn cyfrifon Sage 50 Accounts a meddalwedd cyflogres Sage 50 Payroll
- Mae gan ThGC 13 o gyflogeion parhaol, ac yn prosesu oddeutu 50 o weithwyr trwy'r gyflogres bob blwyddyn (actorion, rheolwyr llwyfan ac ati, yn ystod cynyrchiadau)
- Mae ThGC wedi ei gofrestru ar gyfer TAW
- 31 Mawrth yw diwedd y flwyddyn ariannol
- Bydd angen paratoi Cyfrifon Blynyddol drafft erbyn 31 o Orffennaf, a Chyfrifon Blynyddol terfynnol erbyn 30 o Fedi bob blwyddyn.

Amserlen

Dyddiad cau cyflwyno tendr**: 6 Tachwedd 2019 (erbyn 17.00)**

Cyfweliadau: **19 Tachwedd 2019 (os yn briodol)**

Dyddiad dechrau'r cytundeb: **1 Ebrill, 2020**

Dyddiad terfynu'r cytundeb: **31 Mawrth, 2023 (gyda'r posibiliad o ymestyn y cytundeb am 2 flynedd arall)**

Meini Prawf ar gyfer asesu'r tendr

Wrth dynnu rhestr fer o geisiadau bydd y panel yn asesu:

i) Cryfder y tendr wrth gyfarfod ag anghenion sylfaenol y prosiect, yn cynnwys y fethodoleg a gynigir.
ii) Gwerth am arian eich tendr
iii) Profiad eich cwmni a'r unigolion a nodir yn eich tendr wrth gyflawni'r math yma o waith
iv) Eich gallu i gyflawni gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg

Bydd y cyfweliadau yn adeiladu ar yr asesiad o'r meini prawf yma, ac yn ystyried pob un o elfennau'r cynnig.

Rhan 2 – Amodau a Thelerau'r Tendr

1. Cyffredinol

1.1 Cynnwys y Gwahoddiad i Dendro

Mae'r Tendr i gael ei lunio yn gwbl unol â gofynion y Gwahoddiad i Dendro hwn y cyfeirir ato, ynghyd ag unrhyw ychwanegiadau a anfonir, gyda'i gilydd fel y Gwahoddiad i Dendro.

1.2 Ymholiadau ynghylch y Tendr

Rhaid i unrhyw ymholiad mewn cysylltiad â'r Tendr neu â'r Gwahoddiad i Dendro cael ei anfon at angharad.leefe@theatr.com

Caiff pob Tendrwr wybod sut mae ThGC wedi ymateb, ynghyd â natur yr ymholiad, heb ddatgelu enw'r Tendrwr a fu'n ymholi. Rhaid i'r Tendrwr beidio â chysylltu na chyfathrebu ar unrhyw gyfrif, cyn Dyddiad y Tendr, ag unrhyw berson arall sy'n ymwneud â gwaith ynglŷn â'r Gwahoddiad i Dendro hwn oni bai fod y Sefydliad yn ailgyfeirio'r ymholiad.

1.3 Tendr Annibynnol

Drwy gyflwyno Tendr, mae'r Tendrwr yn gwarantu:

(a) bod y prisiau yn y Tendr wedi eu cyfrif yn annibynnol, heb ymgynghori, cyfathrebu, cytuno na chyd-ddeall ag unrhyw Dendrwr arall neu ag unrhyw gystadleuydd ar unrhyw fater sy'n ymwneud â'r prisiau hynny er mwyn cyfyngu ar gystadleuaeth.

(b) onid yw'r gyfraith yn mynnu fel arall, fod y prisiau sydd wedi eu dyfynnu yn y Tendr heb gael eu datgelu'n fwriadol gan y Tendrwr, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i unrhyw Dendrwr neu gystadleuydd arall, ac na chânt eu datgelu felly ychwaith.

(c) nad yw'r Tendrwr wedi gwneud nac yn mynd i wneud unrhyw ymgais i gymell unrhyw berson neu gwmni arall i gyflwyno neu i beidio â chyflwyno Tendr er mwyn cyfyngu ar gystadleuaeth.

1.4 Diwygiadau gan Theatr Genedlaethol Cymru (ThGC)

Rhaid i unrhyw hysbysiad bod y Gwahoddiad i Dendro wedi ei ddiwygio cael ei anfon o leiaf saith niwrnod cyn Dyddiad y Tendr, rhaid ei anfon fel ychwanegiad at y Gwahoddiad i Dendro a bernir ei fod yn rhan o'r Gwahoddiad i Dendro. Os oes angen hynny, rhaid i ThGC newid Dyddiad y Tendr er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol ni chaniateir ymestyn yr amser a'r dyddiad pryd y mae'n rhaid i'r Tendr gael ei gyflwyno.

2. Paratoi'r Tendr

2.1 Cost y Tendr

Ni fydd ThGC yn gyfrifol am unrhyw gostau neu dreuliau a dynnir gan y Tendrwr mewn cysylltiad â pharatoi'r Tendr, ei gyflwyno neu ei gloriannu.

2.2 Arian y Tendr

Rhaid rhoi prisiau'r Tendr mewn sterling.

3. Cyflwyno'r Tendr

Dylid cyflwyno'r dogfennau angenrheidiol fel y'i disgrifir yn y ddogfen hon yn electronig at Angharad Leefe angharad.leefe@theatr.com. Dylid defnyddio'r teitl:

"CYFRINACHOL – DOGFENNAU TENDR ARCHWILIO" yn y llinell

destun.

Gall methu â dilyn y cyfarwyddiadau hyn beri bod y Tendr yn annilys.

4. Ymdrin â'r Tendr

4.1 Disgresiwn ThGC

Nid yw ThGC yn addo derbyn y Tendr isaf, na rhan neu'r cyfan o unrhyw Dendr, ac ni fydd y gydnabyddiaeth bod unrhyw Dendr a gyflwynwyd wedi dod i law yn gyfystyr ag unrhyw gytundeb gwirioneddol neu dybiedig rhwng ThGC a'r Tendrwr. Mae ThGC yn cadw'r hawl i dderbyn unrhyw ran o unrhyw Dendr neu Dendrau neu'r cyfan ohonynt, a hyn yn ôl disgresiwn ThGC yn unig.

4.2 Peidio â Dychwelyd y Tendr

Ni chaiff unrhyw ran o'r Tendr a gyflwynir ei dychwelyd i'r Tendrwr.

4.3 Canlyniadau'r Broses Dendro

Caiff pob Tendr a gyflwynir yn gywir ei ystyried gan dîm cloriannu a dewisir un neu ragor gyda golwg ar wneud cytundeb contractiol, ar yr amod y gall unrhyw faterion sy'n aros cael eu hegluro. Ar ôl i benderfyniad terfynol ar ganlyniadau'r Gwahoddiad i Dendro cael ei gymryd, hysbysir pob Tendrwr yn ysgrifenedig a ydynt wedi bod yn llwyddiannus neu beidio. Ni roddir dim gwybodaeth arall ar gynnydd y tendro.

Invitation to Tender: Auditing Services
October 2019

Introduction

Theatr Genedlaethol Cymru is the Welsh-language national theatre of Wales. We create bold, ambitious, inclusive and memorable theatre experiences in the heart of our communities at traditional theatre venues and unexpected locations across Wales and beyond.

The company - based in Carmarthen - also offers workshops and a comprehensive program of work with communities, and provides resources for the theatre sector in Wales.

Theatr Genedlaethol Cymru - established in 2003 - is a registered charity and a company limited by guarantee. As a charity, the Theatre has to source income from a number of different sources. Currently, a significant part of the Theatre's annual income comes from the Arts Council of Wales. Theatr Genedlaethol Cymru is a member of the Arts Portfolio for Wales and receives an annual revenue grant.

Part One - The Specification

Theatr Genedlaethol Cymru (ThGC) is seeking to appoint a company to provide external audit services for three financial years, from 1 April 2020 to 31 March 2023, with the possibility of extending the contract for a further 2 years. ThGC invites tenders from qualified accountancy firms to provide auditor services.

Requirements

Theatr Genedlaethol Cymru requires External Auditors to:

- audit accounts;
- prepare ThGC's annual accounts using the SORP for charities;
- attend a meeting of the Finance and Operations Committee to present the accounts;
- provide appropriate reports to the Finance and Operations Committee, ThGC Board of Trustees and the appropriate statutory authorities on the accuracy and appropriateness of ThGC's accounts and financial management systems;
- provide support to the officers of ThGC in fulfilling statutory financial reporting requirements for Companies House and the Charity Commission;
- provide support to ThGC officers in submitting a Theatre Tax Relief claim to HM Revenue and Customs;
- respond to any relevant queries, on occasion.

Information to Include

Audit firms that wish to apply should submit the following:

The relevant experience and expertise the company has, particularly which partner (s); audit manager (s); and staff with experience of auditing in the third or arts sector. You should detail what staff you expect to be involved.

Also should include:

- The resources available to carry out the audit;
- The audit fee for the year 2020/2021 (including work on auditing and preparing the 2019/2020 accounts), and details of the basis on which the fee will increase year on year;
- Audit methodology;
- Ability to work through the medium of Welsh, as Welsh is the medium of all ThGC's internal administration
- Other services offered by the company;
- Companies should designate a proposed audit partner and manager for the assignment and include details of their experience and qualifications

Value for Money

The services provided will make full use of the three core elements, **time, expertise and quality of work**, so suppliers must make sure that value for money is demonstrated for the services provided.

Language

You can respond to the tender in Welsh or bilingually. You should prove in your tender that the company has sufficient proficiency to be able to offer the services described through the medium of Welsh.

Invoices / Fees

The fee for providing the service stated above should be specified in the tender. Please also indicate any anticipated travel and subsistence costs incurred in providing the service.

In addition to the fee for the above work, costs for additional services should be identified.

The supplier will consult with the client before incurring any significant expenses or charges.

Additional information

- ThGC uses the Sage 50 Accounts package and Sage 50 Payroll software
- TGC has 13 permanent employees, and processes around 50 workers through the payroll each year (actors, stage managers etc., during productions)
- ThGC is VAT registered
- 31 March is the end of the financial year
- Draft Annual Accounts will need to be prepared by 31 July, and final Annual Accounts by 30 September each year.

Timetable

Tender submission deadline: **6 November 2019 (by 17.00)**

Interviews: **19 November 2019 (if required)**

Commencement date: **April 1, 2020**

Contract termination date: **March 31, 2023 (with the possibility of extending the contract for a further 2 years)**

Criteria for assessing the tender

In drawing up a shortlist of applications, the panel will assess:

i) The strength of the tender in meeting the basic needs of the project, including the methodology proposed.

ii) Value for money of your tender

iii) The experience of your company and the individuals specified in your tender in carrying out this type of work

iv) Your ability to carry out work through the medium of Welsh

The interviews will elaborate on the assessment of these criteria, and consider each of the elements of the proposal.

Part 2 – Terms and Conditions of Tender

1. General

1.1 Contents of Invitation to Tender

The Tender is to be drawn up strictly in accordance with the requirements of this Invitation to Tender referred to, together with any additions sent, together as the Invitation to Tender.

1.2 Tender Enquiries

Any queries in connection with the Tender or Invitation to Tender must be sent to angharad.leefe@theatr.com

All Tenderers will be informed of how ThGC has responded, together with the nature of the enquiry, without disclosing the name of the Tenderer who enquired. In no event shall the Tenderer contact or communicate, before any Tender Date, with any other person involved in work in connection with this Invitation to Tender unless ThGC redirects the inquiry.

1.3 Independent Tender

By submitting a Tender, the Tenderer guarantees:

(a) the prices in the Tender have been calculated independently, without consultation, communication, agreement or mutual understanding with any other Tenderer or any competitor on any matter relating to those prices in order to restrict competition.

(b) unless otherwise required by law, the prices quoted in the Tender have not been disclosed by the Tenderer, directly or indirectly, to any other Tenderer or competitor, and they will not be disclosed.

(c) the Tenderer has not made or is not going to make any attempt to induce any other person or company to submit or not to submit a Tender in order to restrict competition.

1.4 Revisions by Theatr Genedlaethol Cymru (ThGC)

Any notice that the Invitation to Tender has been amended must be sent at least seven days before the Tender Date, must be sent as an addition to the Invitation to Tender and be deemed to be part of the Invitation to Tender. If necessary, TGC must alter the Tender Date in order to comply with this requirement. Except in exceptional circumstances it is not permissible to extend the time and date by which the Tender must be submitted.

2. Preparing the Tender

2.1 Cost of Tender

ThGC shall not be responsible for any costs or expenses incurred by the Tenderer in connection with the preparation, submission or evaluation of the Tender.

2.2 Currency of Tender

Tender prices must be in sterling.

3. Submitting the Tender

The necessary documents as described in this document should be submitted electronically to Angharad Leefe angharad.leefe@theatr.com. Tenderers should use the title: **"CONFIDENTIAL - AUDIT TENDER DOCUMENTS"** in the subject line.

Failure to follow these instructions may render the Tender invalid.

4. Dealing with the Tender

4.1 Discretion of ThGC

ThGC does not undertake to accept the lowest Tender, or any part or all of any Tender, and the acknowledgment of receipt of any Tender shall not constitute any actual or deemed agreement between ThGC and the Tenderer. ThGC reserves the right to accept any or all of any Tender or Tenders, at the sole discretion of TGC.

4.2 Return of Tender

No part of the Tender submitted will be returned to the Tenderer.

4.3 Result of the Tendering Process

Each Tender submitted correctly will be considered by an evaluation team and one or more will be selected with a view to entering into a contractual agreement, provided that any outstanding issues can be clarified. Once a final decision on the results of the Invitation to Tender has been taken, all Tenderers will be notified in writing whether or not they have been successful. No other information is given on the progress of the tender.